Cofnodion Cyfarfod Arferol **CYNGOR TREF RHUTHUN** a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, nos Lun, 27 Mehefin 2016 am 7:00p.m.

PRESENNOL: Y Cynghorydd Geraint Woolford (Maer)
Y Cynghorwyr Stephen Beach, James Bryan, Elisabeth Culshaw, June Derry, Ken Hawkins, Menna Jones, Simeon Jones, Robert Owen-Ellis, Anne Roberts, Heather Williams ac Emrys Wynne.

35. CYFLWYNO BEIBL I'R MAES GAN Y GIDEONIAID RHYNGWLADOL

Cyflwynwyd copi'r Gideoniaid o'r Ysgrythur i'r Maer gan Mr Ken Williams, Ysgrifennydd Beiblau, Cangen Gideoniaid Clwyd.

36. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Bob Costain ac Ian Lewney, a'r Cynghorydd Sir Bobby Feeley.

37. DATGAN BUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

38. ADRODDIAD Y MAER

Darllenodd y Maer lythyrau diolch oddi wrth Phil Ebrell, y Frenhines Elisabeth II, Cymdeithas Strôc Dyffryn Clwyd, Brownies Rhuthun, Clwb Peldroed Ieuenctid Rhuthun, Clwb Tennis Rhuthun a Chlwb Rygbi Ieuenctid a Phlant Rhuthun.

24/05 Prosiect Cofio Rhuthun – drama yn Ysgol Borthyn
25/05 Agor twrnamaint tennis ysgolion uwchradd Sir Ddinbych
Prosiect Cofio Rhuthun – drama gan ddisgyblion Ysgol Borthyn - Clwb Rygbi Rhuthun
26/05 Prosiect Cofio Rhuthun – drama gan ddisgyblion Ysgol Borthyn - Canolfan Awelon
28/05 Noson gyflwyno gwobrau Clwb Peldroed Rhuthun
28/05 Arddangosfa gelf, Plas Newydd
02/06 Cyflwyno Gwobrau Gwirfoddolwyr Ifanc
03/06 Ymweld â digwyddiad Wythnos Gwirfoddolwyr Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych yng Nghanolfan Naylor Leyland
Seremoni cyflwyno gwobrau Ruthin School
07/06 Cyflwyno gwobrau yn Slimming World
Cyflwyno gwobr i enillydd Helfa Drysor y Maer
09/06 Cyfarfod â'r Parchedig Stuart Evans
10/06 Cyfarfod Blynyddol Urdd Cyfeillion Ysbyty Rhuthun, siaradwr gwadd – Dr Peter Higson
11/06 Agor diwrnod codi arian yn siop fferins Candy Shack
Bore coffi Ymchwil Canser yn Llanrhaeadr
Agor digwyddiad Pen-blwydd y Frenhines yn Llys Erw
13/06 Codi baner Diwrnod y Lluoedd Arfog yn Neuadd y Sir
Cyfarfod â Heddlu Gogledd Cymru
17/06 Diwrnod hwyl Munchkins @ Ysgol Llanbedr (Y Faeres)
18/06 Bore hwyl Cylch Meithrin Rhuthun
Diwrnod codi arian Bar Llaeth – gwerthu cacennau bach
Diwrnod y Lluoedd Arfog, Castell Bodelwyddan
19/06 Lansio Twrnamaint Golff Troed a Thennis yng Nghanolfan Llanfwrog
Cyflwyno gwobrau i aelodau Clwb Gymnasteg Rhuthun a Dinbych
Lansio Gŵyl Gerdd Ryngwladol Gogledd Cymru yn Llanelwy
22/06 Diwrnod mabolgampau Ysgol Stryd y Rhos
25/06 Carnifal Rhuthun
Gorsaf Dân Rhuthun - cychwyn ar daith Her y 3 Copa
Cyngerdd agoriadol Gŵyl Rhuthun

39. ADRODDIADAU'R AELODAU

Cyng. James Bryan (Dirprwy Faer)	Pwyllgor Gefeillio, digwyddiad Wythnos Gwirfoddolwyr Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych, Gwasanaeth Pen-blwydd y Frenhines yn Eglwys Sant Pedr, cyfarfodydd Gŵyl Rhuthun
Cyng. Stephen Beach	Cyngerdd Panto Rhuthun, cyfarfod Pwyllgor Gŵyl Rhuthun, codi arian at apêl Freya's Freedom, dathlu pen-blwydd y Frenhines yn Llys Erw, Gwasanaeth Pen-blwydd y Frenhines yn Eglwys Sant Pedr, cyfarfod llywodraethwyr Ysgol Stryd y Rhos, Carnifal Rhuthun a chydgysylltu ag aelodau teulu Lecomber ynghylch derbyn Ceiniog Dyn Marw
Cyng. Elisabeth Culshaw	Sesiwn cynefino Sioe Flodau gyda Les Starling, Cadeirydd, a chyfarfod pwyllgor Sioe Flodau Rhuthun
Cyng. June Derry	Cyflwyno gwobrau Ruthin School a chodi arian at apêl Freya's Freedom
Cyng. Ken Hawkins	Cyflwyno gwobrau Ruthin School, cyngerdd Gŵyl Rhuthun yn Ysgol Brynhyfryd
Cyng. Menna Jones	Cyfarfod llywodraethwyr Ysgol Borthyn, digwyddiadau Prosiect Cofio Rhuthun, Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2016 yn y Fflint, Cyfarfod Blynyddol Urdd Cyfeillion Ysbyty Rhuthun, Cyfarfod Blynyddol y Banc Bwyd, Nantclwyd y Dre a Charnifal Rhuthun
Cyng. Robert Owen-Ellis	Cyfarfod llywodraethwyr Ysgol Pen Barras, Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2016 yn y Fflint, cyflwyno Cofnodion Cyrhaeddiad yn Ysgol Brynhyfryd a'r Banc Bwyd x 4
Cyng. Anne Roberts	Tri digwyddiad Prosiect Cofio Rhuthun, cyfarfodydd Ymlaen Rhuthun, cyflwyno gwobrau Ruthin School, dathlu pen-blwydd y Frenhines yn Llys Erw, codi arian at apêl Freya's Freedom, cyfarfod Tîm y Dref, Cyfarfod Blynyddol y Banc Bwyd, Fforwm Pobl dros 50 oed a Charnifal Rhuthun
Cyng. Heather Williams	Teithiau cerdded ar gyfer digwyddiad Wythnos Gwirfoddolwyr Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych a Phrosiect Cofio Rhuthun.

40. COFNODION Y CYFARFOD ARFEROL DIWETHAF

PENDERFYNWYD: *cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mai 2016 yn gofnod cywir, yn amodol ar gynnwys presenoldeb y Cynghorydd Emrys Wynne yn yr arddangosfa yn dangos y cynlluniau arfaethedig ar gyfer Ysgol Pen Barras ac Ysgol Stryd y Rhos ar safle Glasdir.*

41. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

42. PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cyflwynodd Gadeirydd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mehefin 2016.

PENDERFYNWYD: *derbyn cofnodion y cyfarfod.*

43. PWYLLGOR AMWYNDERAU

Cyflwynodd Gadeirydd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mehefin 2016.

PENDERFYNWYD: *derbyn cofnodion y cyfarfod.*

44. MANYLION CYSWLLT AELODAU, AELODAETH PWYLLGORAU A CHYNRYCHIOLAETH AR GYRFF ALLANOL

PENDERFYNWYD: *derbyn y manylion wedi'u diweddaru.*

45. CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL

(i) Sioe Flodau Rhuthun

(ii) Cymdeithas Cymuned Llanfwrog

PENDERFYNWYD: *gofyn am gopi o gyfrifon llawn Sioe Flodau Rhuthun a chymeradwyo cais Cymdeithas Cymuned Llanfwrog am £1,000 tuag at arddangosfa tân gwyllt 2016.*

46. ADRODDIAD AR LWFANSAU A THREULIAU I GYNGHORWYR TREF A CHYMUNED

Hysbyswyd yr Aelodau am y gofyniad statudol i'r holl Gynghorau gyhoeddi a darparu adroddiad blynyddol i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol o ran lwfansau a threuliau a dalwyd i gynghorwyr tref a chymuned erbyn 30 Medi bob blwyddyn.

PENDERFYNWYD: *defnyddio'r ffurflen a ddarparwyd i gyflwyno adroddiad lwfansau a threuliau i aelodau Cyngor Tref Rhuthun.*

47. DATGANIAD ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau gymeradwyo'r Datganiad Ariannol ar gyfer y cyfnod yn diweddu 31 Mai 2016.

PENDERFYNWYD: *derbyn a chymeradwyo'r Datganiad Ariannol ar gyfer y cyfnod yn diweddu 31 Mai 2016.*

48. CYFRIFON I'W TALU

PENDERFYNWYD: *awdurdodi'r talu'r cyfrifon isod:*

899	Llanfwrog CIC	Gwasanaethau torri glaswellt – Mehefin		£513.90
900	J & C Brimble	Dyfrio'r basgedi crog x 8		£1,140.20
901	Fineline Retail	Tystysgrifau a phinau bawd	*	£7.62
902	Cyngor Sir Ddinbych	Llogi lori i roi'r basgedi crog yn eu lle	*	£360.00
903	IT Williams Company Ltd	Llogi lori cefn gwastad a gyrrwr i lwytho a chludo'r basgedi blodau	*	£462.00
904	Cyllid y Wlad	Treth incwm ac yswiriant gwladol		£252.83
905	Marian Rees	Cyfieithu ar y pryd	*	£108.00
D.D.	BT Business	Gwasanaethau ffôn	*	£97.22

49. CYFARFOD NESAF CYMDEITHAS CYNGHORAU LLEOL GOGLEDD A CHANOLBARTH CYMRU

PENDERFYNWYD: *bod cynrychiolwyr Cyngor Tref Rhuthun, y Cynghorwyr Anne Roberts ac Emrys Wynne, yn mynd i'r cyfarfod ac archebu dau ginio ar gost o £15 yr un.*

50. CYNHADLEDD CYMRU 2016 CYMDEITHAS CLERCOD CYNGHORAU LLEOL (SLCC)

PENDERFYNWYD: *awdurdodi'r Clerc i fynychu'r Gynhadledd uchod yn Llandudno ar 14 Medi 2016 ar gost o £69 + TAW.*

51. ADEILADAU ALLANOL YNG NGHARREG LWYD, PENTRECELYN

Derbyniodd yr Aelod wybodaeth fod yr adeiladau amaethyddol allanol yng Ngharreg Lwyd, Pentrecelyn, ar gael i'w llogi at ddefnydd cyflogaeth, busnes, masnachol neu gymunedol.

PENDERFYNWYD: *nodi'r wybodaeth.*

52. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD: *cadarnhau mai dyddiad cyfarfod nesaf y Cyngor Tref fydd nos Lun, 25 Gorffennaf 2016.*